Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Blodyn Tatws**

**Parc Cefni**
**Bodffordd**
**Llangefni**
**LL77 7PJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Blodyn Tatws

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Person cofrestredig | Lindsay Boyle |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Gorffennaf 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â ffocws ac, ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a datblygiad, yr amgylchedd, nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae ganddynt gyfleoedd da i wneud dewisiadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn hapus ac yn ymgartrefu gan eu bod yn cael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn brysur ac yn ymgysylltu'n weithredol ac yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Mae’r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn briodol.

Mae'r staff yn hyrwyddo'r rhan fwyaf o arferion a gweithdrefnau iach i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r plant ac yn gyfarwydd ar y cyfan â'u hoffterau a'u teuluoedd. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau addas i'r plant ac yn eu hannog i chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach.

Mae'r amgylchedd yn ddigon glân a diogel. Mae adnoddau a theganau yn briodol i’r oedran. Mae'r ardal chwarae dan do wedi'i threfnu'n dda. Mae angen adnewyddu’r amgylchedd chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig ac yn ymroddedig, ac wedi gwneud gwelliannau da i greu canlyniadau gwell i'r plant, ond mae angen datblygu rhai meysydd ymhellach. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n ddwyieithog.

## Llesiant

Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Mae ganddynt ryddid i archwilio eu hardal chwarae yn ddiogel a dilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hapus a hyderus. Cafodd plentyn fwynhad wrth ddweud wrthym am ei wisg Spider-Man a dangosodd i ni sut roedd yn gwisgo'r masg. Ymatebodd y staff ar unwaith i geisiadau'r plant am fwy o ddiod a grawnfwyd. Roeddent yn siarad yn gyffrous â'r staff am eu teuluoedd a'r hyn y maent yn ei wneud gartref. Er enghraifft, dywedodd plentyn na allai aros i gael trampolîn newydd.

Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau. Mae'r plant yn mynd at y staff yn rhwydd pan fydd angen cwtsh arnynt neu pan fyddant yn gwneud cais. Roedd plentyn yn cael ei wneud i deimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio wrth newid ei gewyn ac roedd yn sgwrsio'n hapus â'r staff. Mae'r plant yn ymgyfarwyddo'n addas â'r rhan fwyaf o'r arferion dyddiol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn eistedd yn braf wrth y bwrdd i gael eu prydau bwyd, gan fwynhau'r achlysur cymdeithasol hwn gyda'i gilydd. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda i dacluso eu teganau ac yn cydweithio'n dda fel tîm i adeiladu cuddfan. Maent yn mynegi empathi ac yn sensitif i anghenion eraill – er enghraifft, roedd plentyn yn hoffi gweld ei ffrind yn hapus ac yn gwneud iddo chwerthin a chilchwerthin wrth iddynt rolio o gwmpas ar y mat chwarae meddal.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd priodol o dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael amser tawel. Er enghraifft, roedd plentyn yn brysur yn y gornel gartref yn datblygu ei ddychymyg. Defnyddiodd y plentyn nwyddau cartref wedi'u hailgylchu, gan gynnal canolbwyntio da wrth iddo ddefnyddio cyllell degan i ddychmygu taenu menyn ar y tost tegan. Roedd plant eraill yn rholio cerbydau mawr i fyny ac i lawr bol tedi mawr, tra oedd eu ffrindiau yn dewis amser tawel yn cwblhau posau jig-so.

Mae’r plant yn meithrin eu hannibyniaeth yn briodol. Maent yn dangos i ni sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo.  Mae'r plant yn defnyddio eu cyllyll a ffyrc yn dda amser bwyd ac, ar ôl gorffen eu pryd, maent yn pentyrru eu cadeiriau’n daclus. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u rôl a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau diogelu cywir y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryderon am blentyn yn eu gofal. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled ond nid yn gyson cyn amser bwyd. Nid oedd y staff yn dilyn y polisi newid cewynnau yn gywir o ran golchi dwylo a'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni wnaethant olchi eu dwylo ar ôl cael gwared ar y menig a ddefnyddiwyd i newid cewyn y plentyn. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach a bod yn egnïol trwy chwarae yn yr awyr iach.

Mae’r staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac mae’r rhain wedi cael eu llofnodi gan rieni i ddangos eu bod wedi cael gwybod. Maent yn cynnal ac yn cofnodi ymarferion tân i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn rhaid iddynt adael y safle mewn argyfwng.

Mae’r staff yn darparu amgylchedd cartrefol ac yn cofleidio’r plant pan fydd angen darparu cysur a sicrwydd iddynt.

Mae'r staff wedi dechrau ar gamau cynnar datblygu dull mwy ymatebol ar gyfer cynllunio a gweithgareddau. Maent yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio'n dda â’r plant trwy gydol eu gweithgaredd dewisol. Er enghraifft, roedd y staff yn eistedd gyda phlentyn wrth iddo esgus wneud paneidiau o de ac yn cefnogi'r plentyn yn dyner i ddatblygu ei chwarae dychmygol yn greadigol. Maent yn ymateb yn sensitif ac effeithiol i'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Fodd bynnag, nid yw dewisiadau'r plant yn cael eu cofnodi ar bob adeg er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o sut i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn. Darllenodd aelod o staff stori i blentyn mewn ffordd hyfryd. Er enghraifft, darllenwyd y stori gyda llais tyner ac ar gyflymder priodol a gwahoddodd y plentyn i ofyn cwestiynau. O ganlyniad, bu hyn o gymorth wrth ymestyn sgiliau meddwl y plentyn.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n ddigon glân a diogel lle gall y plant chwarae a dysgu'n briodol. Gwnaed gwelliannau da i rai meysydd o'r amgylchedd; fodd bynnag, mae angen adnewyddu'r brif ardal chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg sy'n nodi'r rhan fwyaf o'r peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni ar sut i ddelio ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ystod addas o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae dodrefn o faint priodol ar gael i'r plant. Mae'r ardaloedd clyd ar gyfer amser tawel a gorffwys yn cael eu cyflwyno'n braf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y storfa deganau ac adnoddau dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae ardal benodol wedi'i neilltuo i'r plant ar gyfer storio'u heitemau personol, ac mae hynny'n creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddeniadol sy'n dangos i'r plant fod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae dewis digonol o adnoddau awyr agored, cerbydau pedal, llithrennau a chyfarpar taflu a dal i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, cydsymud a chorfforol y plant. Mae angen adnewyddu a thacluso'r ardal awyr agored gan fod rhai o'r cyfarpar plastig ag olion tywydd arno ac wedi treulio. Gwnaethom drafod â'r person cofrestredig fod angen ail-lenwi'r hambwrdd chwarae dŵr â dŵr glanach. Cadarnhaodd y person cofrestredig y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn newid y dŵr yn ddyddiol yn y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog y plant i ddysgu am y byd naturiol ac mae ganddynt ardaloedd wedi'u trefnu ar gyfer plannu a thyfu llysiau a ffrwythau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r person cofrestredig wedi ymrwymo i wneud gwelliannau. Mae hi wedi gweithio'n galed i adeiladu tîm cryf o staff.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu datganiad o ddiben sy'n darparu'r wybodaeth i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u gweithredu'n briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu'r ansawdd gofal yn llawn gwybodaeth ac yn fyfyriol, gan amlygu gwelliannau a wnaed a gweledigaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan bawb sy'n defnyddio'r lleoliad i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer y staff a'u hunain yn gyfredol. Mae'r hyfforddiant perthnasol i staff yn gyfredol. Gwnaethom archwilio pedair ffeil cyflogaeth y staff a chofnodion unigol tri phlentyn a chanfod bod y person cofrestredig wedi casglu'r wybodaeth ofynnol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn goruchwyliaeth anffurfiol. Cynhelir arfarniadau a chofnodir y trafodaethau hyn yn briodol.

Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ‘gefnogol’ a’u bod ar gael bob amser os oes angen. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a’u bod yn cael eu ‘gwerthfawrogi’. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff yn dilyn proses sefydlu er mwyn rhoi'r cymorth priodol iddynt ofalu am y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod presenoldeb dyddiol y plant a'r holl staff sy'n gofalu amdanynt yn cael ei gofnodi, ond nid ydynt wedi sicrhau bod yr holl staff yn cofnodi eu seibiannau'n gywir ac mewn modd cyson.

Mae'r unigolyn â gofal yn ymroddedig. Dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ysgogi gwelliannau ar gyfer y plant a gweithio'n agos â'i staff i helpu i ddatblygu eu hymarfer.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Cofnodi hoffterau'r plant i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o sut i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn.

A2: Diwygio asesiadau risg fel eu bod yn adlewyrchu'n benodol y safle, y gweithgareddau a’r gwibdeithiau ac yn cynnwys diweddariadau.

A3: Ffurfioli goruchwyliaeth un-i-un gyda'r staff, gan gofnodi'r trafodaethau hyn am ymarfer, hyfforddiant a datblygiad.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 29 | Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 29. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyflogai sy'n gofalu am blant perthnasol (3)(a) yn cael hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniadau priodol. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes / Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau golchi dwylo effeithiol ar ôl newid cewyn plentyn, nac yn datblygu arferion hylendid personol y plant yn gyson. Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau rheoli heintiau cyfredol y lleoliad er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau golchi dwylo priodol yn cael eu gweithredu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 29/09/2022